

WALTER, LUCY (1630? - 1658), gordderch y brenin Siarl II

Enw: Lucy Walter
Dyddiad geni: 1630?
Dyddiad marw: 1658
Partner: Charles
Plentyn: Mary Walter
Plentyn: James Scott
Rhiant: Elizabeth Walter (née Prothero)
Rhiant: William Walter
Rhyw: Benyw
Galwedigaeth: gordderch y brenin Siarl II
Maes gweithgaredd: Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awdur: James Frederick Rees

merch ag iddi gysylltiadau â rhai o deuluoedd blaenllaw de-orllewin Cymru. Yr oedd ei thad, William Walter, Roch Castle, Sir Benfro, yn yr i William Walter a brynasai faenor Roch gan deulu de Longueville c. 1601. Ei wraig ef oedd Jane, ferch Francis Laugharne, S. Brides, a'i wraig Janet, ferch [John Philipps](#), Castell Pictwn. Elizabeth Prothero (merch John Prothero, Nantyrhebog, Sir Gaerfyrddin, ac Eleanor, ferch [Walter Vaughan](#), y Gelli Aur, Sir Gaerfyrddin) oedd ei fam: yr oedd hi, felly, yn nith i [John Vaughan, iarll 1af Carbery](#).

Bu rhieni Lucy yn ymgynyddu'n gas am gyfnod hir. Ym mis Mai 1641 achwynodd y fam yn erbyn y tad, William Walter, gan ddywedyd iddo ei gadael, a llwyddodd i gael dyfarniad i gymryd ei stad oddi arno ('sequestration'); yn ddiweddarach, fodd bynnag, sef yn 1647, diddymwyd y dyfarniad a rhoddwyd gofal y plant, sef Richard Lucy, a Justus, ar y tad. Yn 1643 rhoes [Richard Vaughan, ail iarll Carbery](#), warchodlu a oedd o blaid y brenin, Siarl I, yng nghastell Roch. Cymerwyd y castell gan [Rowland Laugharne](#), wedi i fyddin y brenin gael ei gorchfygu ganddo yn Pyl (ar hafan Aberdaugleddau), fis Chwefror 1644, eithr fe'i cymerwyd eilwaith (ym mis Mehefin) gan y Brenhinwyr o dan Syr Charles Gerard. Maentumiai William Walter fod ei golledion ynglŷn â'r castell yn cyrraedd y swm o £3,000 ac iddo orfod ffoi i Lundain. Nid oes amheuaeth na bu'r teulu yn byw yn Llundain am gyfnod hir pan oeddid yn ymgynyddu (fel y nodwyd uchod). Ni wyddys sut y bu i'r tywysog Cymru ieuanc ddyfod i adnabod Lucy. Yn haf 1648 yr oedd hi gyda'r llys brenhinol (a oedd mewn encil) yn yr Hâg; bu wedyn gyda'r llys ym Mharis. Ganwyd eu mab, James, yn Rotterdam, 9 Ebrill 1649, a bu i Lucy hefyd ferch, Mary, a anwyd yn yr Hâg 6 Mai 1651. Yn 1656 dychwelodd Lucy i Lundain, eithr cymerwyd hi i'r ddalfa fel ysbïwr tybiedig a dodwyd hi, gyda'i morwyn, Anne Hill, yn Nhŷr Llundain. Y rheswm a roes hi yn ei hamddiffyniad ydoedd iddi ddychwelyd i gasglu cymynrodd o £1,500 a adawsid iddi gan ei mam, a fuasai farw ychydig cyn hynny. Gollyngwyd hi yn rhydd, eithr gorchmynnwyd iddi adael y wlad. Cafodd Siarl y plentyn i'w feddiant - yr oedd yn ei gydnabod yn fab iddo'i hun - a rhoes ef yng ngofal ei fam, sef y frenhines Henrietta Maria. Ar ôl yr Adferiad crewyd ef yn ddug Monmouth ac yn ddiweddarach priododd Anne Scott, a oedd â hawl ganddi i'w galw ei hun yn iarllles Buccleuch. Yn ystod yr helynt ynglŷn â'r 'Exclusion Bill,' 1679-81, rhoddwyd yr hanes ar led (a daethpwyd i greu'r hanes yn bur gyffredinol) ddarfod i Siarl briodi Lucy Walter ac mai James, o'r herwydd, ydoedd gwir aer y goron.

Bu Lucy farw yn Paris yn 1658. Bu ei brawd hynaf Richard Walter, yn siryf sir Benfro yn 1657. Dilynydd ef yn stadau Roch gan ei fab Richard Walter a grewyd yn farchog ac a fu'n siryf yn 1727 pryd y cysylltid ei enw â Rosemarket.

Awdur

Syr James Frederick Rees, (1883 - 1967)

Ffynonellau

Lord George Scott, *Lucy Walter wife or mistress* (London 1947)

J. F. Rees, 'The Parents of Lucy Walter,' yn *Studies in Welsh History collected papers, lectures and reviews* (Caerdydd 1947)

Francis Jones, 'The Squires of Hawksbrook,' yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1937

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Lucy Walter](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [77756348](#)

Wikidata: [Q272539](https://www.wikidata.org/wiki/Q272539)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

